# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Y Strade

Heol Sandy
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 4DL

Dyddiad yr arolygiad:  Mawrth 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷnag Ysgol Gyfun Y Strade

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gyfun Y Strade |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1253 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 1071 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 182 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Uwchradd yw 20.3%) | 11.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Uwchradd yw 9.0%) | 8.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 36.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2017 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/03/2019 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 16/03/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Gyfun y Strade yn gymuned gynnes a chynhaliol lle mae perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn sail i amgylchedd ddysgu gynhyrchiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn barchus ac yn ymroi'n frwd i'w dysgu, sydd yn galluogi llawer i wneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwerthfawrogi ethos cynhwysol a theuluol yr ysgol sydd yn rhoi ymdeimlad cryf o berthyn iddynt.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio dysgu yn effeithiol ac yn darparu gweithgareddau sy'n adeiladu'n rhesymegol ar wybodaeth flaenorol disgyblion. Yn yr enghreifftiau cryfaf, mae addysgu'n ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus, yn datblygu eu gallu i feddwl yn ddyfnach ac yn eu hannog i fod yn ddysgwyr mwy annibynnol. Mewn ychydig o wersi lle nad yw'r addysgu mor gryf, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon effeithiol er mwyn cynnig digon o her i ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar feithrin a datblygu medrau disgyblion. Mae arweinwyr yn cynllunio a chydlynu darpariaeth bwrpasol a gwerthfawr ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, gan eu hintegreiddio'n effeithiol i gyfoethogi dysgu ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn trwy ddefnyddio'u medrau yn ystyrlon a'u cymhwyso'n hyderus ac yn fedrus ar draws y pynciau. Mae'r cwricwlwm yn eang ac yn berthnasol, gan gefnogi datblygiad disgyblion fel unigolion cyflawn.

Mae trefniadau ar gyfer lles, gofal, cymorth ac arweiniad yn gryf. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn darparu cymorth wedi'i deilwra sy'n ymateb yn sensitif i'w hanghenion. Mae'r fenter 'Strade yn y Gymuned' yn darparu cymorth pwrpasol i ddisgyblion sy'n gwella eu lles, eu hymgysylltiad â dysgu, ac yn eu helpu i oresgyn rhwystrau sy'n gysylltiedig â thlodi ac anawsterau cymdeithasol ac emosiynol. Mae darpariaeth addas ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae trefniadau diogelu yn gadarn.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu at fywyd yr ysgol ac arwain mentrau sydd yn datblygu eu hyder a'u hymdeimlad o berthyn i gymuned ehangach yr ysgol. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn darlledu cerddoriaeth Gymraeg a negeseuon lles wythnosol trwy orsaf radio'r ysgol, 'Sain y Sosban', gan hybu Cymreictod a chymuned Ysgol y Strade.

Mae'r pennaeth yn arweinydd dibynadwy a chadarn gyda gweledigaeth glir. Caiff ei gefnogi'n effeithiol gan y tîm arwain a'r llywodraethwyr. Mae gan yr ysgol drefniadau addas i werthuso ei gwaith a chynllunio ar gyfer gwelliant, sydd wedi arwain at welliannau

mewn nifer o feysydd, gan gynnwys gwella ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau. Fodd bynnag, dros amser, nid yw arweinwyr wedi llwyddo i wella presenoldeb, gan gynnwys presenoldeb disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella:

A1 Gwella lefelau presenoldeb disgyblion, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim

A2 Rhannu'r arferion addysgu cryf a welwyd yn y gwersi gorau er mwyn cryfhau ymhellach safon yr addysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi dwy astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â chynllunio ar gyfer y medrau a rôl arweiniol disgyblion o fewn yr ysgol, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae perthynas waith gref rhwng staff a disgyblion Ysgol Gyfun y Strade. Nodwedd arbennig yw'r agweddau hynod gadarnhaol sydd gan ddisgyblion tuag at yr ysgol a'u dysgu, gyda'r rhan fwyaf yn ymddwyn yn barchus tuag at eu hathrawon, eu cyfoedion ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn brydlon i wersi, yn dilyn cyfarwyddiadau yn syth ac yn ymateb yn gadarnhaol a phwrpasol i adborth llafar eu hathrawon. Maent yn hapus yn yr ysgol ac yn gwerthfawrogi eu cymuned ddysgu uchelgeisiol a chartrefol.

O ganlyniad i addysgu cryf, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon yn fodelau iaith cryf, yn defnyddio terminoleg bynciol yn hyderus ac yn atgyfnerthu geirfa'n gyson drwy gydol y gwersi. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn defnyddio'r derminoleg gywir yn y tasgau dilynol wrth siarad ac ysgrifennu. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn cynllunio'n fwriadus. Mae tasgau'n  adeiladu'n briodol ar ei gilydd ac yn canolbwyntio'n glir ar yr hyn y disgwylir i ddisgyblion ei ddysgu. Maent yn cyfarwyddo'r dysgu yn effeithiol ac yn darparu adnoddau apelgar ac ysgogol. Maent yn egluro cysyniadau yn effeithiol. Mae'r athrawon hyn yn holi disgyblion yn briodol er mwyn adalw a chryfhau eu dysgu. Maent yn cylchu'r ystafell ddosbarth yn gyson er mwyn monitro cynnydd disgyblion a darparu cymorth amserol i gefnogi disgyblion i symud ymlaen â'u dysgu. Yn y rhan fwyaf o achosion, gwneir hyn mewn modd cynhaliol a sensitif o fewn awyrgylch ble mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel i gyfrannu syniadau ac i wneud camgymeriadau.

Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf a buan o ganlyniad i addysgu sy'n hynod o effeithiol. Yn yr achosion hyn, mae athrawon yn:

- frwdfrydig, yn angerddol dros eu pwnc ac yn creu amgylchedd ddysgu sy'n hybu ymgysylltiad a gwydnwch ymysg y disgyblion
- modelu'n grefftus gan rannu a thrafod nodweddion gwaith o ansawdd uchel fel bod disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl a'u hannibyniaeth
- defnyddio eu gwybodaeth arbenigol i gynllunio'n fedrus ar gyfer dysgu disgyblion
- rhannu'r dysgu yn gamau gyda gweithgareddau sy'n cynyddu'n raddol o ran her
- holi'n fedrus gan annog disgyblion i esbonio a chyfiawnhau eu hymatebion ac adeiladu ar syniadau ei gilydd

Mewn ychydig o wersi, mae diffygion yn yr addysgu yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion. Yn yr achosion hyn, nid yw'r cynllunio'n ddigon effeithiol ac, o ganlyniad, mae tasgau'n dueddol o fod yn ailadroddus neu nid ydynt yn ddigon heriol, neu mae athrawon yn gor-gyfarwyddo gyda chyflwyniadau sy'n rhy hir.

Mae llawer o athrawon yn darparu adborth effeithiol sy'n nodi'n glir yr hyn mae disgyblion yn ei wneud yn dda a pha agweddau y mae angen iddynt eu gwella. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon a disgyblion yn gwneud defnydd cyson ac effeithiol o feini prawf llwyddiant. Mae'r drefn asesu, 'Gorau Glas', 'Myfyrio Melyn', 'Cywiro Coch', yn cael ei defnyddio'n effeithiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn bwrpasol i adborth er mwyn gwella'u gwaith. Lle mae'r adborth yn llai effeithiol, nid yw bob tro'n rhoi cyngor digon penodol ar sut i wella, neu nid yw'n ymateb yn ddigonol i gamsyniadau pynciol.

## Medrau

Mae'r gwaith strategol i ddatblygu'r holl fedrau ar draws y cwricwlwm yn gryfder nodedig. Mae'r cynllunio a chydlynu yn hynod o effeithiol ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gwau'n naturiol trwy'r cwricwlwm. O ganlyniad, mae effaith glir a chyson ar fedrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion.

## Llythrennedd

Mae gweledigaeth glir a chadarn ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion. Mae arweinwyr yn sicrhau bod llythrennedd yn ganolog i'r cwricwlwm a cheir cydweithio effeithiol rhwng adrannau i ddatblygu llythrennedd ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae llythrennedd wedi'i integreiddio'n effeithiol ar draws y pynciau, gyda ffocws cryf ar ddatblygu medrau darllen, ysgrifennu a chyfathrebu'r  disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n ofalus ar athrawon a chyfoedion ac mae llawer yn ateb yn hyderus wrth gynnig atebion byr. Mae mwyafrif y disgyblion yn mynegi eu syniadau'n briodol gan ddefnyddio geirfa berthnasol a therminoleg bynciol addas. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu eu hatebion yn fwy aeddfed drwy ddefnyddio geirfa gyfoethog ac esboniadau clir gyda chystrawen naturiol. Mae ychydig o ddisgyblion yn siarad yn betrusgar wrth ymateb ac nid ydynt bob amser yn ymestyn eu hatebion.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen sylfaenol yn effeithiol drwy adalw a chrynhoi gwybodaeth, er enghraifft drwy uwch oleuo ac anodi deunyddiau darllen a cherddi yn bwrpasol yn y Gymraeg a Saesneg. Llwyddant i ddehongli ystyr y testunau hyn yn briodol. Mae  lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu uwch fedrau darllen yn effeithiol drwy gyfuno gwybodaeth, dehongli a chymharu ffynonellau. Maent yn gwerthuso'n effeithiol ar faterion megis effaith hiliaeth ac yn dod i farn yn llwyddiannus wrth drafod 'A wnaeth breuddwyd Martin Luther King ddod yn wir?' yn eu gwersi crefydd, gwerthoedd a moeseg.

Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu gyda lefel dda o gywirdeb o ran gramadeg a sillafu. Maent yn strwythuro'u gwaith yn glir gan ddefnyddio terminoleg yn briodol. Mae llawer yn mynegi a chyfiawnhau eu barn yn effeithiol, ac yn manteisio ar ganllawiau i wneud gwelliannau pwrpasol i'w gwaith. Mae ychydig o ddisgyblion yn cynhyrchu darnau

ysgrifennu estynedig aeddfed o safon uchel iawn. Er enghraifft, wrth iddynt ysgrifennu areithiau aeddfed ac ystyriol ar y testun 'Are we doing enough to support girls who are denied education?' yn eu gwersi Saesneg. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud gwallau treiglo a chamsillafu, gydag ychydig o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau elfennol.

### Rhifedd

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd perthnasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd yn gynyddol. Mae'r tasgau rhifedd ar draws y pynciau perthnasol yn cynnig lefel uchel o her ac yn galluogi disgyblion i gymhwyso eu medrau mewn cyd-destunau ystyrlon. O ganlyniad, mewn gwersi mathemateg a'r pynciau perthnasol eraill, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau rhifedd cadarn.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhif yn effeithiol ac yn ymdrin yn llwyddiannus â phroblemau yn ymwneud ag arian ac amser yn eu gwersi mathemateg. Maent yn mesur onglau yn gywir ac yn cyfrifo arwynebeddau a chyfeintiau siapiau amrywiol yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion yn ymdrin â mynegiannau algebraidd yn briodol, er enghraifft wrth ehangu cromfachau er mwyn datrys hafaliadau. Maent yn plotio a darllen cyfesurynnau yn briodol yn y pedwar pedrant. Mae'r disgyblion hyn yn casglu, arddangos a dehongli data yn hyderus gan ddefnyddio tablau, siartiau a graffiau amrywiol.

Mewn pynciau addas ar draws y cwricwlwm, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn fedrus. Maent yn dehongli ystadegau'n llwyddiannus mewn cyd-destunau sydd yn berthnasol i'r pwnc. Er enghraifft, maent yn darllen pyramidiau poblogaeth yn effeithiol er mwyn cyfrifo, cymharu a dehongli'r wybodaeth yn eu gwersi daearyddiaeth. Yn eu gwersi gwyddoniaeth, maent yn cyfrifo graddiant yn llwyddiannus o graffiau llinell syth ac yn ysgrifennu casgliadau cynhwysfawr wrth ddehongli'r wybodaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu dealltwriaeth o algebra yn briodol wrth ymwneud â fformiwlâu i gyfrifo mesurau cyfansawdd, megis buanedd, yn fanwl gywir ac wrth astudio deddfau Newton. Yn eu gwersi technoleg, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhif yn fuddiol wrth gyfrifo cost cynhyrchu cylched electronig yn effeithiol fel rhan o'u dyluniad peirianyddol.

### Digidol

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau digidol. Mae llawer yn datblygu dealltwriaeth gref o ddiogelwch drwy drafod peryglon a dibynadwyedd cynnwys ar lein, a manteision ac anfanteision deallusrwydd artiffisial. Mae llawer yn defnyddio codio yn effeithiol fel offeryn i ddeall pwysigrwydd amgryptio a dadgryptio. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio dyfeisiau ac amrywiaeth eang o feddalwedd yn hyderus ac yn greadigol i ddatrys problemau. Yn eu gwersi medrau digidol, maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn effeithiol, er enghraifft drwy gynhyrchu ystod amrywiol o gynnwys digidol

megis gwefannau, clipiau fideo, animeiddiadau, GIF yn ogystal â defnyddio gemau cyfrifiadurol i gefnogi eu dysgu. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos medrau cryf wrth gynllunio, creu a gwerthuso eu cynnwys digidol.

Mae cyfleoedd buddiol a phwrpasol i ddatblygu eu medrau ymhellach ar draws y cwricwlwm. Yn eu gwersi technoleg, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau digidol yn effeithiol i ddylunio cynnyrch. Yn eu gwersi drama, mae cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion greu a pherfformio sgript bwletin newyddion ynghyd â golygu a recordio, ac mae disgyblion yn creu, cynhyrchu a chyflwyno rhaglen radio'r ysgol, sef 'Sain y Sosban'.

## Cwricwlwm

Mae'r ysgol wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer y cwricwlwm sy'n adlewyrchu gwerthoedd craidd yr ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo dysgu cydlynol a chynhwysol gan sicrhau bod cynnydd disgyblion yn ganolog i'r broses gynllunio. Mae arweinwyr wedi mapio'r medrau yn fwriadus ac wedi cynllunio'n fedrus fel bod disgyblion yn cael cyfleoedd i wneud cynnydd ystyrlon. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ac ar gynnydd disgyblion. Mae'r ysgol yn sicrhau trosglwyddo llyfn i Flwyddyn 7 drwy gydweithio'n bwrpasol ag athrawon Blwyddyn 6 i sicrhau bod adeiladu ar y medrau darllen, ysgrifennu a rhif a ddatblygwyd eisoes.

Mae darpariaeth gwricwlaidd gynhwysol ac eang ar gyfer Blynyddoedd 10 ac 11 sy'n cynnwys amrywiaeth o gymwysterau. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus â darparwyr lleol i ehangu'r arlwy alwedigaethol, gan gynnig cyrsiau fel gwallt a harddwch ac adeiladwaith. Yn y chweched dosbarth, mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol trwy gydweithio ag ysgolion y rhanbarth i ymestyn y cyfleoedd a'r llwybrau dilyniant sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ysgol yn cydweithio â Gyrfa Cymru i sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad at gyngor priodol trwy gyfweliadau unigol, sesiynau grŵp ac ymyraethau wedi'u targedu ar gyfer disgyblion bregus. Mae darpariaeth addas ar gyfer y disgyblion hyn, gan gynnwys dosbarth maethu ym Mlwyddyn 7 a rhaglen amgen i ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'r gwasanaeth ieuenctid i gydlynu gweithgareddau ymarferol ac atyniadol. Mae hyn wedi cryfhau presenoldeb, hyder a medrau sylfaenol y disgyblion hyn i'w paratoi ar gyfer bywyd a gwaith.

Mae'r cwricwlwm iechyd a lles yn cefnogi datblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn effeithiol. Mae ystod o gyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth gymdeithasol, foesol, ysbrydol a diwylliannol. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys sesiynau am sut gellir rheoli straen a gwersi pwrpasol ac addas i oedran ar gyfer addysg perthnasoedd a rhywioldeb. Mae'r gwersi iechyd a lles ym Mlynyddoedd 7, 8 a 9, a chyfraniadau gan bartneriaid allanol, megis elusennau a theatr mewn addysg, yn

cyfoethogi profiadau disgyblion yn effeithiol. Er bod disgyblion ym Mlynyddoedd 10 i 13 yn elwa o sesiynau lles boreol a diwrnodau lles achlysurol, mae llai o gyfleoedd strwythuredig i ddatblygu eu gwybodaeth am les fel rhan o'r cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn hybu Cymreictod a hanes a diwylliant Cymru yn effeithiol. Mae amrywiaeth cyfoethog o gyfleoedd allgyrsiol i ehangu profiadau'r disgyblion yn y celfyddydau a chwaraeon. Mae'r rhain yn cynnwys yr Eisteddfod, sioeau ysgol, corau, band ysgol 'Y Goleuni' a chyfle i fod yn rhan o ffug achosion llys yn llysoedd barn Abertawe. Yn ogystal, ceir cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol a chreadigol trwy gystadlu mewn cystadlaethau amrywiol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb a pharch yn sensitif. Er enghraifft, trwy wersi hanes a chrefydd, gwerthoedd a moeseg, mae disgyblion yn archwilio hawliau, gwerthoedd, cydraddoldeb a hanesion amrywiol, gan gynnwys profiadau pobl ddu, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig.

### Chweched dosbarth

Mae gan ddisgyblion y chweched dosbarth agwedd aeddfed at eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf yn cymryd diddordeb yn y pynciau ac yn dangos annibyniaeth wrth weithio. Maent yn gallu esbonio eu gwaith yn glir, gan wneud cysylltiadau â'u dysgu blaenorol yn effeithiol.

### Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol y Strade yn gymuned gartrefol, gofalgar a chynhaliol lle mae staff yn adnabod disgyblion yn dda iawn. Mae'r tîm lles yn cydweithio'n effeithiol ac yn dangos ymrwymiad cryf i sicrhau bod disgyblion yn datblygu'n unigolion hapus a llwyddiannus. Maent yn darparu ystod addas o gymorth wedi'i deilwra sy'n ymateb yn sensitif i anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion sy'n mynychu'r 'Hafan' yn elwa ar ymyraethau pwrpasol sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel ac yn hyderus ac yn eu cefnogi i reoli eu hemosiynau'n effeithiol. Mae gan yr ysgol bartneriaethau cryf ag asiantaethau allanol sy'n cyfoethogi'r ddarpariaeth ymhellach ac yn cefnogi disgyblion i ymdopi â heriau bob dydd.

### Ciplun 1 – Menter 'Strade yn y Gymuned

Nodwedd werthfawr o waith yr ysgol yw'r fenter 'Strade yn y Gymuned'. Mae'r fenter yn defnyddio ystod eang o ddata i adnabod anghenion disgyblion unigol ac i ddarparu cymorth pwrpasol. O ganlyniad, mae'n gwella lles ac ymgysylltiad disgyblion â dysgu ac yn eu cefnogi'n effeithiol i oresgyn rhwystrau sy'n gysylltiedig â thlodi ac anawsterau cymdeithasol ac emosiynol. Mae'r ysgol yn gweithio ar y cyd â nifer helaeth o wasanaethau, mudiadau a busnesau lleol i dargedu disgyblion penodol gydag ymyraethau priodol. Er enghraifft, mae disgyblion yn cydweithio â chartref gofal lleol ac yn datblygu eu hyder trwy gyfathrebu a gofalu am y preswylwyr. Rhaglen arall yw 'Breaking Bread', sef prosiect ar y cyd â mudiad cymunedol yng nghanol tref Llanelli. Mae grŵp o ddisgyblion o aelwydydd ag incwm isel yn dysgu sgiliau coginio ochr yn ochr â phobl o'r gymuned. Gwelwyd gwelliant sylweddol ym mhresenoldeb ac agweddau at ddysgu gan y grŵp hwn o ddisgyblion.

Mae trefniadau pontio cadarn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n llwyddiannus yn yr ysgol ac yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn. Mae staff yr ysgol yn casglu ac yn dadansoddi ystod gynhwysfawr o wybodaeth berthnasol sy'n sicrhau adnabyddiaeth gynnar o ddisgyblion. Mae hyn yn caniatáu dilyniant effeithiol mewn lles a chynnydd disgyblion.

Mae diwylliant cryf o ddiogelu yn treiddio drwy bob agwedd o waith yr ysgol. Mae arweinwyr yn hyrwyddo lles a diogelwch fel blaenoriaeth glir ac yn sicrhau bod staff ar bob lefel yn cael hyfforddiant priodol i adnabod ac ymateb i bryderon. Mae prosesau cadarn ar waith i gofnodi a dilyn achosion yn brydlon ac yn effeithiol. Mae'r ysgol yn gweithredu'n rhagweithiol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i gadw'n ddiogel. Mae'r ysgol yn cydweithio'n  effeithiol ag asiantaethau allanol i gryfhau'r ddarpariaeth ac yn sicrhau cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn dangos parch at eraill.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag ADY yn addas. Mae gweithdrefnau priodol ar waith i nodi anghenion disgyblion yn brydlon, ac mae'r tîm yn casglu ac yn dadansoddi ystod gynhwysfawr o wybodaeth berthnasol. Mae'r cynlluniau datblygu unigol a'r cynlluniau cymorth yn cynnig gwybodaeth fanwl a thargedau penodol ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae gan yr holl staff fynediad at grynodeb defnyddiol o'r wybodaeth hon i lywio'u cynllunio. Mae hyfforddiant priodol i athrawon a chynorthwywyr yn cefnogi datblygiad strategaethau addysgu ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae'r ysgol yn defnyddio data ar lythrennedd, rhifedd a lles emosiynol a chymdeithasol er mwyn llywio'r ymyraethau mwyaf addas. Mae'r tîm ADY yn cynnig amrediad o ymyraethau yn yr 'Hafan' i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau sylfaenol ac maent yn cydweithio'n effeithiol ag amrywiaeth o asiantaethau allanol. Mae trefniadau tracio a monitro trylwyr yn sicrhau bod cynnydd disgyblion sydd ag ADY yn cael ei adolygu'n rheolaidd o'u mannau cychwyn, gan

alluogi'r tîm i addasu cefnogaeth, yn ôl yr angen. Mae'r disgyblion hyn yn elwa o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau ymarferol, er enghraifft wrth iddynt weithio yng ngardd yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth yn nosbarth maethu Blwyddyn 7 yn cefnogi'r disgyblion ag ADY i drosglwyddo'n effeithiol i'r ysgol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau ei threfniadau i hyrwyddo presenoldeb drwy weithredu systemau tracio a monitro addas a dadansoddi data yn fanwl. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i nodi tueddiadau a gweithredu'n brydlon, lle bo angen. Defnyddir ystod addas o strategaethau i hyrwyddo presenoldeb cadarnhaol ac i annog disgyblion i fynychu'r ysgol yn rheolaidd. Pan mae presenoldeb yn peri pryder, mae'r ysgol yn ymateb mewn modd amserol a graddol, gan ddefnyddio cefnogaeth y tîm bugeiliol ac asiantaethau allanol i ddarparu cymorth addas wedi'i dargedu. Mae hyn wedi arwain at welliant eleni yn y data presenoldeb sydd heb ei ddilysu. Fodd bynnag, mae'r gwaith i wella presenoldeb wedi bod yn llai effeithiol dros amser. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae presenoldeb disgyblion, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, wedi bod yn is nag ysgolion tebyg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae gan yr ysgol weledigaeth glir i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol sy'n seiliedig ar barch, ac mae staff yn gweithredu'r disgwyliadau hyn yn gyson. Mae hyn yn cyfrannu at ddiwylliant trefnus a chynhaliol lle mae achosion o gamymddwyn yn gymharol brin. Pan mae angen, mae'r tîm ymddygiad a lles yn defnyddio ystod effeithiol o strategaethau ac ymyraethau i gefnogi ymddygiad. Mae systemau priodol ar waith i gydnabod ac annog ymddygiad cadarnhaol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan weithredol ym mywyd yr ysgol ac i ddatblygu eu medrau arwain. Mae disgyblion yn teimlo bod eu llais yn cael ei werthfawrogi, ac mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i'w barn. Mae 'Llais y Strade', sef cyngor yr ysgol, a'r is-bwyllgorau yn galluogi disgyblion i gyfrannu'n ystyrlon at benderfyniadau, gan ddylanwadu'n sylweddol ar agweddau pwysig o fywyd yr ysgol. Er enghraifft, maent yn ymateb i anghenion eu cyd-ddisgyblion drwy ddatblygu dull electronig o rannu pryderon yn gyfrinachol a dylanwadu ar yr adolygiad o'r wisg ysgol lawn. Mae'r disgyblion yn rhannu eu gwaith yn effeithiol gyda chymuned yr ysgol drwy fwletin rheolaidd 'Straeon o'r Strade'.

Nodwedd gref o waith yr ysgol yw'r modd y mae disgyblion y chweched dosbarth yn arwain eu cyfoedion iau. Mae'r disgyblion hŷn yn arwain ystod o bwyllgorau sy'n cefnogi ac yn cyfoethogi profiadau disgyblion ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at greu cymuned gynhwysol a chefnogol. Mae'r Pwyllgor Elusennau yn trefnu gweithgareddau diddorol i godi arian sylweddol i elusennau lleol a chenedlaethol tra bod y Pwyllgor Cyfeillion Maths yn ennyn diddordeb disgyblion mewn medrau rhif mewn modd hwyliog. Mae'r Pwyllgor

Cyfathrebu yn creu a rhannu cylchgrawn digidol tymhorol, ‘Tywallt y Te’, sy’n cynnwys cystadlaethau i ddisgyblion iau yr ysgol.

### Ciplun 2 – Radio Ysgol ‘Sain y Sosban’

Mae disgyblion y chweched dosbarth yn cynllunio a rhannu darllediadau wythnosol trwy orsaf radio’r ysgol, ‘Sain y Sosban’. Maent yn darlledu amrywiaeth o gerddoriaeth gyfoes Gymraeg a rhannu negeseuon sy’n cyd-fynd â ffocws lles yr wythnos. Mae cymuned yr ysgol yn mwynhau gwrando ar y darllediad yn ystod y sesiwn lles wythnosol. Mae hyn yn rhoi llwyfan creadigol i rannu gwybodaeth a hyrwyddo Cymreictod yn yr ysgol a chreu ymdeimlad cryf o gymuned Ysgol y Strade.

### Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac ystyriol. Mae ganddo weledigaeth glir i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ragori drwy gyfrwng y Gymraeg ymhob agwedd o’u bywydau. Rhennir y weledigaeth hon gyda rhanddeiliaid yr ysgol yn llwyddiannus ac fe’i harddelir trwy arwyddair yr ysgol, ‘nid da lle gellir gwell’. Caiff ei chefnogi'n effeithiol gan weddill y tîm arwain fel bod ‘Teulu’r Strade’ yn ‘gwella gyda’i gilydd’ mewn awyrgylch gefnogol a phwrpasol.

Yn gyffredinol, mae cyfrifoldebau’r tîm arwain wedi eu rhannu’n  gytbwys a synhwyrol. Mae gan bob aelod o’r tîm ofal strategol am feysydd penodol sy’n cyd-fynd yn dda â chryfderau unigolion. Mae trefniadau rheolaeth llinell yn glir ac yn darparu cyfle addas i arweinwyr canol  drafod gwaith eu hadran gyda’r tîm arwain. Mae’r berthynas waith rhwng aelodau’r tîm arwain a’r arweinwyr canol yn sicrhau atebolrwydd priodol tra’n cynnal cefnogaeth, ble mae ei hangen. Mae prosesau datblygiad perfformiad sefydledig ar gyfer yr holl staff yn cyd-fynd yn addas â rolau a blaenoriaethau gwella ysgol gyfan. Mae arweinwyr yn cynnig rhaglen werthfawr o ddysgu proffesiynol i staff sy’n cynnwys hyfforddiant ar addysgu wedi’i arwain gan y gweithgor addysgeg. Mae’r sesiynau wythnosol ‘Gwella Gyda’n Gilydd’ yn rhoi cyfle i’r staff ymgysylltu â strategaethau addysgu penodol a sicrhau bod arferion addysgu’n cael eu cefnogi’n barhaus.

Mae gan yr ysgol broses sicrhau ansawdd strwythuredig a chyson. Mae rhaglen waith y flwyddyn yn ddealladwy a chlir. Mae gweithgareddau sicrhau ansawdd ysgol gyfan yn tynnu ar ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys dadansoddiad manwl o ddata mewnol ac allanol, craffu ar waith disgyblion, arsylwadau gwersi a thrafodaethau â disgyblion. Cesglir a gweithredir ar farn rhieni yn rheolaidd.

Mae’r tîm arwain yn ystyried effaith y ddarpariaeth ar safonau disgyblion yn briodol a darperir adborth gwerthfawr i adrannau ar gryfderau a meysydd i’w gwella. Defnyddir y canfyddiadau i lunio blaenoriaethau gwella ysgol gyfan ac adrannol addas. Mae arweinwyr canol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at brosesau hunanwerthuso yr ysgol. Er bod

ychydig o amrywiaeth yn ansawdd eu gwerthusiadau, mae llawer ohonynt yn defnyddio'r gweithgareddau sicrhau ansawdd yn effeithiol i adnabod blaenoriaethau gwella pwrpasol. Mae arweinwyr canol yn cynllunio ar gyfer gwelliant yn effeithiol ac yn gwerthuso cynnydd yn erbyn eu targedau yn rheolaidd. O ganlyniad, mae gwelliannau mesuradwy i'w gweld mewn meysydd pwysig megis datblygu safonau medrau'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae gwaith arweinwyr wedi arwain at welliant mewn nifer o feysydd pwysig, er enghraifft diwygio trefn ADY, datblygu medrau disgyblion a hyrwyddo'r Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi cael digon o effaith ar wella presenoldeb disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cadarn yn erbyn y rhan fwyaf o argymhellion yr arolygiad diwethaf, gan gynnwys gwella ansawdd yr addysgu, y ddarpariaeth ar gyfer medrau rhifedd a digidol disgyblion a gwella'r prosesau hunanwerthuso.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n briodol â rhieni trwy amryw  ddulliau fel cylchlythyr, nosweithiau gwybodaeth ac adroddiadau ar gynnydd disgyblion. Mae gan rieni fynediad at lu o wybodaeth gyfredol a defnyddiol am eu plant trwy blatfform digidol.

Mae llywodraethwyr yn gefnogwyr brwd o'r ysgol ac yn angerddol dros eu gwaith. Maent yn darparu her addas i arweinwyr ar rai agweddau fel deilliannau disgyblion, presenoldeb a chyllid. Maent yn cyfrannu'n  briodol at drefniadau hunanwerthuso drwy graffu ar waith ar y cyd, cynnal teithiau dysgu a gwrando ar ddisgyblion. Mae hyn yn cryfhau eu dealltwriaeth o safonau ac ansawdd yr addysgu.

Mae'r pennaeth, aelodau o'r tîm arwain a'r llywodraethwyr yn monitro cyllideb yr ysgol yn ofalus, gan sicrhau bod blaenoriaethau ysgol yn cael eu hariannu'n briodol. Mae gan yr ysgol ddiffyg yn y gyllideb ond mae cynllun adfer sydd wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod lleol er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg cyfredol. Mae'r ysgol yn blaenoriaethu'n briodol wariant y grant datblygu disgyblion er mwyn lleihau effaith tlodi ar ddisgyblion. Mae arweinwyr yn casglu tystiolaeth amrywiol er mwyn gwerthuso'n briodol effaith y grant ar ddeilliannau disgyblion. Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn gyffredinol uwch na'u cyfoedion mewn ysgolion tebyg am ddwy o'r tair blynedd diwethaf.

Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n addas ar leihau rhwystrau i'r disgyblion hynny sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o elusennau lleol a sefydliadau allanol i sicrhau bod disgyblion a rhieni yn cael mynediad cyfartal i gefnogaeth. Mae 'Diwrnod gyda'n gilydd' yn gyfle gwerthfawr i rieni a disgyblion yr ysgol ac ysgolion cynradd partner gyfarfod â phartneriaid gwahanol ar safle'r ysgol. Yn ogystal, mae strategaeth 'Strade yn y gymuned' yn darparu

cyfleoedd amgen i ddisgyblion mwyaf bregus yr ysgol gael profiadau gwerthfawr er mwyn datblygu eu medrau cymdeithasol a’u hyder.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Codwyd pryder ynghylch rheoli’r safle yn ystod yr arolygiad, ac mae’r awdurdod lleol wedi cael gwybod.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/05/2026